ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Cynllun Gwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

TGCH Blwyddyn 2

Uned 2B: Creu Lluniau

Ynglyn â'r uned:

Yn yr uned hon bydd plant yn datblygu syniadau gweledol at ddibenion gwahanol gan ddefnyddio TGCh a dulliau eraill. Maen nhw'n defnyddio nodweddion pecyn graffeg TGCh i archwilio a gwireddu eu syniadau ac i nodi ffyrdd o ddatblygu a gwella eu gwaith. Bydd angen iddynt ddethol a defnyddio offer syml (ysgrifbin, brwsh, llenwi a chwistrellu) wrth wneud marciau gan ddeall bod modd newid gwaith yn hawdd gan ddefnyddio'r botwm Dadwneud a rhoi cynnig ar syniadau heb ddifetha fersiynau cynharach. Byddant yn dysgu sut mae technegau TGCh yn gallu hysbysu technegau eraill, ac i'r gwrthwyneb ac weithiau bod y fersiwn ar y sgrîn yn fersiwn derfynol darn o waith. Bydd angen iddynt gadw ac adfer eu gwaith gyda chymorth.

Ble mae'r uned yn ffitio:

Dylai disgyblion fod â'r gallu i reoli'r llygoden yn barod.

Mae modd cyfuno gweithgareddau yn yr uned hon â gwaith mewn celf a dylunio a thechnoleg

Geirfa:

Graffeg | Eicon | Offer Pensil | Offer Brwsh | Offer chwistrellu | lliflenwi | llinell | dadwneud | gwead | arbed fel | adfer | palet | dylunio

Adnoddau:

pecyn graffeg gydag ystod o offer a nodweddion golygu | llyfrau sy'n dangos gwaith artistiaid - byddai arlunwyr Cymreig fel Josef Herman a Kyffyn Williams yn cefnogi'r Cwricwlwm Cymreig | Gwefannau sy'n dangos gwaith artistiaid | Gwaith artistiaid sydd wedi'i dynnu oddi ar y Rhyngrwyd a'i gadw ar BGRh gyda'r offer Spotlight i edrych ar 'luniau o fewn lluniau' ac ar gyfer trafodaeth dosbarth cyfan.

Disgwyliadau: Erbyn diwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: defnyddio pecyn graffeg ar y cyfrifiadur i greu llun; dewis yr offer mwyaf priodol i gydweddu â'u diben a chadw ac adfer eu gwaith gyda chymorth.

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: fel defnyddio pecyn graffeg ar y cyfrifiadur i greu llun

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: defnyddio pecyn graffeg ar y cyfrifiadur i greu llun; dewis yr offer mwyaf priodol i gydweddu â'u diben; datblygu delwedd ac addasu a chywiro eu gwaith wrth iddynt fynd yn eu blaen. Byddant yn gallu arbed ac adfer eu gwaith yn annibynnol.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posib**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Gosod Yr Olygfa • **syniad allweddol:** bod modd defnyddio TGCh i greu lluniau	♦ Dangoswch i'r dosbarth enghreifftiau o luniau a grëwyd gan blant hŷn drwy ddefnyddio TGCh, gan gynnwys allbrintiau a delweddau ar y sgrîn. Trafodwch rai o nodweddion y lluniau a thrafodwch sut maen nhw'n wahanol i luniau a gynhyrchir mewn dulliau traddodiadol	• sylweddoli bod modd defnyddio TGCh i greu lluniau	• Gellir defnyddio lluniau ar yr un pwnc drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau traddodiadol a TGCh er mwyn i blant allu gwneud cymariaethau a chynnig sylwadau ar ddulliau a gwerthuso'r cyfryngau gwahanol a ddefnyddir.
Tasgau Byr Wedi'u Ffocysu • **syniad allweddol:** bod TGCh gwneud cywiro camgymeriadau yn hawdd ac archwilio dewisiadau amgen • **techneg:** dewis a defnyddio offer syml sy'n gwneud marc • **techneg:** gallu defnyddio 'arbed fel' ac adfer eu gwaith gyda chymorth.	♦ Edrychwch ar waith Artistiaid a'u trafod. Edrychwch ar sut mae'r artist wedi defnyddio lliw, llinell, siâp, ffurff a gwead . Gofynnwch i'r dosbarth ystyried sut a pham y gall nodweddion arbennig fod yn effiethiol. ♦ Dangoswch sut i ddewis yr offer brwsh ac ysgrifbin a sut maen nhw'n gallu creu llinellau a gweadau gwahanol. Dangoswch sut mae'r gorchymyn 'dad-wneud' yn gallu trwsio camgymeriad neu farc nad yw'n gweithio. ♦ Gofynnwch i'r dosbarth greu eu gwaith celf eu hunain yn null yr artist gan ddefnyddio dulliau traddodiadol a TGCh. Gofynnwch i'r dosbarth gymharu eu gwaith a gwerthuso a thrafod pa mor effeithiol ydyw.	• dewis a defnyddio offer priodolDefnyddio' r eicon Dad-wneud i arbrofi neu gywiro camsyniadau. • Arbed ac adfer gwaith gyda chymorth.	Gallai'r plant gyfeirio at Artistiaid o Gymru a/neu ddarluniau yn eu llyfrau braslunio i ysgogi'r gwaith. Mae gweadau anifeiliaid fel draenogod, adar a physgod yn gwneud deunydd da. Gallai plant gyflawni tasg debyg gan ddefnyddio dulliau traddodiadol. Dangoswch ganlyniadau'r ddau ddull a thrafodwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol. Bydd sgrîn ddu yn gwella effaith weledol gwaith plant ond bydd yn defnyddio llawer o arlliwiwr os yw gwaith yn cael ei argraffu.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posib**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasgau Byr Wedi'u Ffocysu • **techneg:** defnyddio'r teclyn lliflenwi i greu goleubwyntiau o liw • **techneg:** defnyddio 'arbed fel'	♦ Dangoswch 'Yellow islands' gan Jackson Pollock i'r dosbarth. Trafodwch y patrwm rythmig a grëir gan y llinellau du sy'n llifo. Gofynnwch i'r plant pa liwiau ar wahân i ddu sy'n sefyll allan a pham maen nhw'n meddwl mai 'Yellow Islands' yw enw'r paentiad. ♦ Dangoswch sut mae modd mynd â llinell ddu 'am dro' o gwmpas y sgrîn. Cymharwch yr effaith a grëir gan linellau sy'n llifo a llinellau onglog. Dangoswch i'r plant sut i ddewis a defnyddio'r offer lliflenwi i wneud 'ynysoedd' o liw o fewn llun. ♦ Gofynnwch i'r plant ddefnyddio'r ysgrifbin a'r offer lliflenwi i greu llinellau a lliwiau i fynegi themâu fel 'priflampau yn y ddinas'. Fel arall gallai plant ddarparu eu teitlau eu hunain sy'n cyfleu sut maen nhw wedi defnyddio llinellau a lliwiau ♦ Dangoswch i'r plant sut i gadw gwaith gan ddefnyddio 'cadw fel'	• reoli'r ysgrifbin a defnyddio'r offer lliflenwi i greu effeithiau gweledol • sylweddoli bod modd cadw gwaith gan ddefnyddio'r gorchymyn 'cadw fel'	Mae'n bosib na fydd plant yn gweld bylchau bach yn eu llinellau. Atgoffwch nhw am y gorchymyn 'dad-wneud' os ydy'r llenwadau'n gollwng. Gallai'r plant ddefnyddio dulliau traddodiadol i gynhyrchu lluniau tebyg a chymharu'r canlyniadau. Mae'r gorchymyn 'cadw fel' yn golygu bod modd arbed gwaith pob plentyn yn unigol.
• **techneg:** dewis a defnyddio'r offer llinell syth, siapiau geometrig a lliflenwi	♦ Dangoswch enghreifftiau o waith Mondrian i'r dosbarth a nodwch y prif nodweddion – llinellau llorweddol a fertigol, lliwiau cynradd a gofod gwyn. ♦ Dangoswch sut i ddefnyddio'r taclau llinell syth a siapiau geometrig. Dangoswch sut i ddefnyddio lliwiau i lenwi'r siapiau. ♦ Gofynnwch i'r plant greu lluniau yn arddull Mondrian, gan ddefnyddio'r teclyn llinell syth a'r teclyn tynnu pedrongl. Gofynnwch iddynt arbrofi gyda lliw gan ddefnyddio'r teclyn lliflenwi. Gallent greu lluniau lliw cynnes, lluniau lliw oeraidd a lluniau lle bydd un lliw'n fwy amlwg na'r lleill. Dangoswch y gwaith a thrafodwch y canlyniadau.	• defnyddiwch yr offer llinell syth, siapiau geometrig a lliflenwi i gyd-fynd â'u dibenion.	Dylid annog disgyblion i ddefnyddio llinellau o wahanol drwch drwy newid lled yr ysgrifbin Dylid annog plant i ddefnyddio 'Cadw fel ' i gadw eu gwaith

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posib**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasgau Byr Wedi'u Ffocysu			
• **techneg:** dewis a defnyddio'r offer chwistrellu	• Trafodwch y gwahaniaeth rhwng goleuni a lliw wrth edrych arnynt ar y sgrîn ac mewn print, gan ddefnyddio dwy enghraifft o'r un llun. Cyflwynwch y syniad o 'baentio gyda goleuni'. Dangoswch sut i ddefnyddio'r offer chwistrellu i ddewis lliwiau a phatrymau. • Gofynnwch i'r plant greu lluniau o olygfeydd nos *ee noson Guto Ffowc neu Diwali.* Gofynnwch iddynt ddefnyddio'r offer lliflenwi i greu sgrîn ddu ac wedyn defnyddio offer gwneud marc a lliwiau amrywiol i archwilio ansawdd goleuni a lliw ar y sgrîn	• ddefnyddio'r offer chwistrellu • dewis lliwiau a phatrymau i gyd-fynd â'u dibenion	• Gallai'r athro/athrawes gynnwys gwaith y plant mewn cyflwyniad amlgyfrwng, neu gyfnewid gwaith gydag ysgolion eraill gan ddefnyddio post electronig, i atgyfnerthu'r syniad bod delwedd ar y sgrîn yn gallu bod yn gynnyrch terfynol. • Gallai'r plant ddefnyddio dulliau traddodiadol, *ee creonau a technegau crafu*, i gyflawni tasg debyg. Dangoswch ganlyniadau'r ddau ddull a thrafodwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol.
Tasg Asesu			
• dewis a defnyddio technegau gwahanol i gyfathrebu syniadau drwy luniau	♦ Casglwch bortreadau sydd ag elfen emosiynol gref. Trafodwch y ffyrdd y mae modd cynrychioli teimladau fel dicter, tristwch, ofn a llawenydd yn weledol a dangoswch sut mae artistiaid yn defnyddio llinell, lliw, siâp a gwead i greu effeithiau o'r enghreifftiau a gasglwyd. ♦ Gofynnwch i'r plant ddefnyddio portreadau o'u llyfrau braslunio neu ffotograffau (gellir defnyddio camera digidol) fel man cychwyn ar gyfer eu portreadau eu hunain. Anogwch blant i ddefnyddio amrediad o dechnegau a ddysgwyd mewn sesiynau blaenorol.	• dewis taclau priodol i greu lluniau sy'n cyfleu syniadau • sylweddoli y gellir arbed gwaith gan ddefnyddio'r gorchymyn 'cadw fel'.	• Atgoffwch y plant bod modd defnyddio'r gorchymyn 'dad-wneud' i gywiro camgymeriadau neu newid gwaith. • Gallai'r plant ddefnyddio dulliau traddodiadol i gyflawni tasg debyg. Dangoswch ganlyniadau'r ddau ddull a thrafodwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA